**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015**

Mae'r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 ("Gorchymyn 2005") o ganlyniad i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 sy'n darparu bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("CyngACC") i barhau i fodoli, ond ei fod i gael ei ailenwi yn Gyngor y Gweithlu Addysg.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diddymu Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Rhoddodd y Gorchymyn hwnnw swyddogaethau ychwanegol i CyngACC mewn perthynas â chynnal cofnodion mewn cysylltiad â phersonau sydd wedi eu cofrestru gydag ef. Bydd y ddarpariaeth mewn perthynas â chynnal cofnodion o'r fath gan y Cyngor bellach yn cael ei chynnwys yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

**Gweithdrefn**: Cadarnhaol

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Craffu ar y Rhinweddau**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Rhoddodd y Gorchymyn hwnnw swyddogaethau ychwanegol i CyngACC mewn perthynas â chynnal cofnodion mewn cysylltiad â phersonau sydd wedi

eu cofrestru gydag ef. Bydd y ddarpariaeth mewn perthynas â chynnal cofnodion o'r fath gan y Cyngor bellach yn cael ei chynnwys yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, ("Rheoliadau 2015"). Rhagwelir y daw Rheoliadau 2015 i rym ar 1 Ebrill 2015. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn. Os daw'r Gorchymyn hwn i rym cyn Rheoliadau 2015 yna ni fyddai'r dyletswyddau sydd gan y Cyngor mewn perthynas â chynnal cofnodion yn gymwys nes bod y Rheoliadau newydd yn dod i rym. Yr ydym eisoes wedi cael copi o Reoliadau drafft 2015 i'w gwirio ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y daw'r Gorchymyn a Rheoliadau 2015 i rym ar yr un diwrnod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Ionawr 2015**

**Ymateb y Llywodraeth**

**Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi’r pwynt o ran y rhagoriaethau ac yn derbyn y pwynt a wneir. Mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn cael eu gwneud yn ystod yr wythnos sy’n dechrau ar 26 Ionawr 2015 ac y byddant wedyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015. Felly, yn ymarferol, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd yr anhawster posibl a nodir yn yr adroddiad yn codi.